Rebecca Evans AC/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

7 Chwefror 2019

Annwyl Mick,

Diolch ichi am eich llythyr ynghylch Rheoliadau'r Amgylchedd a Bywyd Gwyllt (Swyddogaethau Deddfwriaethol) (Ymadael â'r UE) 2019. Byddaf yn ymdrin â phob mater sy'n codi yn eich llythyr yn unigol.

Rydych wedi gofyn am fwy o wybodaeth am y rheswm pam bod swyddogaethau sy'n ymwneud â Phrotocol Nagoya wedi'u rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig.

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Rheoliad yr UE ar Fynediad at Adnoddau Genetig a Rhannu'r Manteision (Protocol Nagoya) (Rheoliadau yr UE 511/2014) yn cynnwys cyfuniad cymhleth o swyddogaethau sydd yn amlwg wedi'u cadw'n ôl, gydag eraill y gellir eu disgrifio'n rhai datganoledig. Mae'r ddeddfwriaeth ddomestig sydd eisoes yn bodoli yn y maes hwn yn cynnwys swyddogaethau y mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig yn ymdrin â nhw, ac mae Rheoliadau Protocol Nagoya (Cydymffurfio) (Ymadael â'r UE) 2018 a'r OS Ymadael â'r UE hwn yn parhau â'r dull hwn. Nid yw'n ymarferol bosibl i Weinidogion Cymru arfer swyddogaethau'n annibynnol oherwydd y cyfuniad hwn o swyddogaethau datganoledig a rhai sydd wedi'u cadw'n ôl.

Gofynnoch hefyd am esboniad pellach ynghylch pam bod Llywodraeth Cymru yn gallu nodi nad yw'r cywiriadau eraill mewn perthynas â meysydd polisi datganoledig yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r pwyllgor wedi mynegi pryderon ynghylch pe bai'r OS Ymadael â'r UE yn rhoi swyddogaethau i'r Ysgrifennydd Gwladol sy'n ymwneud â rheoli llygredd mewn adnoddau dŵr, byddai gweithredu paragraff 11(1) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn golygu na fyddai gan y Cynulliad gymhwyster i gael gwared ar y swyddogaeth honno heb ganiatâd Llywodraeth y DU. Rydych wedi gofyn am fanylion pellach ynghylch a yw unrhyw un neu ragor o'r swyddogaethau sydd wedi'u rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn ymwneud â rheoli llygredd mewn adnoddau dŵr (neu unrhyw fater arall a restrir ym mharagraff 11(1) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006).

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn nad yw'r swyddogaethau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â llygryddion organig parhaus; y Gofrestr Ewropeaidd ynghylch Gollwng a Throsglwyddo Llygryddion ac allyriadau mercwri a diwydiannol gan yr OS Ymadael â'r UE yn swyddogaethau y gellir eu harfer mewn perthynas â chyflenwad dŵr, ansawdd dŵr, rheoli adnoddau dŵr, rheoli llygredd mewn adnoddau dŵr, carthffosiaeth, afonydd a chyrsiau dŵr eraill, draenio tir neu reoli risg llifogydd neu ddiogelu'r arfordir, sef y materion a restrir ym mharagraff 11(1)(c) o Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("y materion dŵr").

Dim ond mewn perthynas ag agwedd benodol ar gyfundrefnau sydd, bob un, yn rheoleiddio sylweddau, neu allyriad(au) penodol, y mae pob un o'r swyddogaethau a roddir yn arferadwy. Yn ogystal, nid yw'r un ohonynt yn ymwneud â rhyddhau'r sylweddau neu allyriadau hyn i'r amgylchedd (gan gynnwys dŵr).

Caiff y swyddogaethau hyn eu disgrifio'n fanylach fel rhai sy'n "exercisable in relation to… [the control of] POPs, mercury, the EPRTR and harmonisation of "best available techniques" (BAT) relating to certain industrial activities". Yn fwy penodol:

- Mae Rheoliad 2 yn rhoi swyddogaethau sy'n arferadwy mewn perthynas â therfyniadau ar gyfer crynodiadau gwastraff llygryddion organig parhaus a'r defnydd o lygryddion o'r fath yn unol â chytundebau rhyngwladol.

- Mae Rheoliad 4 yn rhoi swyddogaethau sy'n arferadwy mewn perthynas ag adrodd ar ryddhau llygryddion perthnasol o ffynonellau gwasgaredig lle nad oes data yn bodoli, gan fabwysiadu canllawiau ar gyfer monitro allyriadau ac adrodd arnynt, a diwygio atodiadau technegol i'r rheoliad yn sgil cynnydd gwyddonol a thechnegol neu gytundebau rhyngwladol.

- Mae Rheoliad 8 yn rhoi swyddogaethau arferadwy mewn perthynas ag allforio mercwri a chyfyngiadau allforio, gofynion technegol ar gyfer storio mercwri dros dro mewn ffordd amgylcheddol gadarn, cyfansoddion mercwri a chymysgeddau o fercwri, awdurdodi cynhyrchion lle y mae mercwri wedi'i ychwanegu atynt neu brosesau gweithgynhyrchu a therfynau amser ar gyfer storio gwastraff mercwri dros dro.

- Mae Rheoliad 9 yn rhoi swyddogaethau sy'n arferadwy mewn perthynas â mabwysiadu casgliadau BAT o ran gweithgareddau a restrir yn y gyfarwyddeb allyriadau diwydiannol (IED), sy'n ymwneud â chysoni datganiadau y cytunwyd arnynt o ran BAT sydd ar gael i'r diwydiant ar gyfer gweithgareddau sy'n dod o dan yr IED.

Er bod swyddogaethau o'r fath yn gallu cyffwrdd ar y materion dŵr (ac efallai gwneud darpariaeth am ddŵr), nid oes modd eu harfer yn uniongyrchol mewn perthynas â materion dŵr.

Er enghraifft, er gall casgliadau BAT nodi'r BAT presennol ar gyfer prosesau/safleoedd a fydd yn cynnwys prosesau/safleoedd sy'n ymwneud â rhyddhau deunydd ar ffurf hylif, nid yw casgliadau BAT yn rhagnodi gofynion ar gyfer rhyddhau llygryddion i ddŵr, er enghraifft. Caiff hynny ei benderfynu mewn perthynas â gosodiadau unigol gan y rheoleiddwyr amgylcheddol yn unol â'r gyfundrefn ganiatáu amgylcheddol. Yn ogystal â hynny, nid oes modd defnyddio'r pŵer i fabwysiadu casgliadau BAT i wneud darpariaeth mewn perthynas ag adnoddau dŵr/llygru adnoddau dŵr (neu unrhyw un neu ragor o'r materion dŵr eraill).

Gobeithio y bydd yr wybodaeth ychwanegol hon yn ddefnyddiol i'r pwyllgor.

Yn gywir,

Rebecca Evans Ac/AM
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd